# Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

**Eich enw:** Sarah Capstick

**Sefydliad (lle bo'n berthnasol):** Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

**E-bost/rhif ffôn:** cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk

**Eich cyfeiriad:** Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd CF10 5BF

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 20 Gorffennaf 2023 i:

Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Is Adran Tegwch mewn Addysg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: ccd.sas@llyw.cymru

**Cwestiwn 1 – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi gwybodaeth addas, ddefnyddiol ac ymarferol i arweinwyr, athrawon ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol er mwyn galluogi ysgolion a chyrff llywodraethu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | **Ddim yn siŵr** | **X** |

**Sylwadau ategol**

Nid oes gan Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru y profiad addysgol ymarferol perthnasol i roi barn ar hyn ar ran ymarferwyr addysg.

**Cwestiwn 2 – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn amlinellu cyfrifoldeb cyfreithiol yr ysgol a'r llywodraethwyr yn glir?**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ydynt** | **X** | Nac ydynt | | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 3 – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn amlinellu cyfrifoldebau'r awdurdod lleol yn glir?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydynt** | **X** | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

**Sylwadau ategol**

Y pryder sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol yw nifer y plant a'r bobl ifanc nad ydynt o bosib wedi dychwelyd i addysg ffurfiol yn dilyn Covid ac sydd bellach yn cael eu haddysgu gartref. Mae posibilrwydd nad ydynt yn cael eu monitro ac yn disgyn drwy'r craciau, a allai eu gwneud yn fwy agored i oblygiadau diogelu, fel achosion o gam-drin plant, diogelu cyd-destunol ac achosion o gam-fanteisio gan unigolion neu gangiau troseddol.

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

**Cwestiwn 4 – A oes ymdriniaeth ddigonol o'r ffactorau sy'n cyfrannu a'r nifer mawr o resymau posibl dros absenoldeb?**

| Oes | X | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Er bod yr holl brif ffactorau sy'n cyfrannu wedi'u rhestru, efallai bod ymgysylltiad â'r llysoedd teulu hefyd ac nid y system cyfiawnder troseddol yn unig. Mae'n bosibl y bydd rhai sydd ar gyrion y system cyfiawnder troseddol yn gweithio gyda'r gwasanaethau troseddau ieuenctid i'w hatal rhag mynd i mewn i'r system. Y plentyn neu rywun arall arwyddocaol - rhiant, nain neu daid neu frawd neu chwaer i'r ysbyty, a allai fod yn gysylltiedig â'u rôl fel gofalwr ifanc, neu ar wahân.

Mae aflonyddu rhywiol ar goll o'r rhestr o resymau dros absenoldeb. Adroddir bod 41% o ferched y DU rhwng 14 ac 17 oed yn profi trais rhywiol. Mae adroddiadau eraill am y niferoedd uchel sy'n profi aflonyddwch yn gysylltiedig â'u rhywioldeb yn cynnwys chwibanu a thynnu llun i fyny sgertiau, yn ogystal â ffurfiau eraill o aflonyddwch.

Gall fod achos economaidd-gymdeithasol hefyd sy'n cael ei achosi gan dlodi neu'r perygl o ddigartrefedd, neu yn symud o un tŷ i'r llall ac felly ddim yn y system ddigartrefedd. Gall hyn gael ei achosi gan bryderon gwisg ysgol, e.e. methu fforddio'r eitemau cywir; gall cynnydd yn y defnydd o TG fod y tu hwnt i'w cyrraedd, megis gorfod argraffu gwaith cartref, sy'n rhoi'r rhai heb argraffwyr dan anfantais; cost teithiau ysgol, teithiau a gwyliau sy'n rhy ddrud i deuluoedd eu fforddio.
Mae yna hefyd rai a allai fod yn mynd drwy'r system ofal cyn gorchymyn gwarchodaeth arbennig, maethu tymor hwy neu fabwysiadu lle gallai'r pryder am yr hyn sy'n digwydd a ble y byddant yn y pen draw arwain at rywfaint o absenoldeb.

**Cwestiwn 5 – A yw dysgwyr â nodweddion gwarchodedig wedi'u cynnwys?**

| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | X |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Rydym yn pryderu bod 'bwlio neu wahaniaethu' yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu cydraddoldeb yn ymwneud â rhyw, hil, anabledd, a chyfeiriadedd rhywiol, a fyddai'n awgrymu mai dim ond yn yr ysgol y mae'r pethau hyn yn digwydd. Y realiti, fodd bynnag, yw y gallant ddigwydd yn unrhyw le, a gallent effeithio ar barodrwydd plant neu bobl ifanc i ymgysylltu ag addysg a gwasanaethau eraill.

Rhwydwaith CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES Network

**Cwestiwn 6 – A yw'r canllawiau drafft ‘Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi’ yn rhoi digon o wybodaeth er mwyn i rieni a gofalwyr ddeall eu cyfrifoldeb statudol am sicrhau bod eu plant o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg amser llawn?**

| Ydynt | X | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Er bod y wybodaeth yn ymddangos yn glir i weithwyr proffesiynol sy'n rhan o Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, efallai y bydd angen iaith glir neu fersiwn fyrrach sy'n hygyrch i bob rhiant. Rydym yn pryderu ein bod yn cael gwybod yn anecdotaidd bod ymddygiad rhai plant a phobl ifanc wedi gwaethygu yn dilyn y cyfyngiadau Covid, gan arwain at gynnydd mewn trais rhwng plant a rhieni (cyfeirir ato’n aml fel Trais gan Berson Ifanc yn y Glasoed tuag at Riant, ond mae rhywfaint o wybodaeth ar drais yn digwydd cyn y glasoed).

**Cwestiwn 7 – A yw'r canllawiau drafft ‘Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi’ yn cael eu hesbonio'n glir? Os nad ydynt, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes agweddau rydych yn eu hoffi'n benodol, ac os felly, pam?**

| Oes | X | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae’n ymddangos bod ymgais wedi bod i beidio defnyddio jargon. Mae'r ffordd y mae wedi’i osod hefyd yn ymddangos yn weddol rwydd.

**Cwestiwn 8 – A yw'r canllawiau drafft ‘Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi’ yn hawdd eu defnyddio? Os nad ydynt, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes agweddau rydych yn eu hoffi'n benodol, ac os felly, pam?**

| Ydynt | X | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Rydym yn cytuno ei fod yn hawdd ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mae’n hir ac yn llawn gwybodaeth, ac efallai y byddai'n well ei rannu'n gyfres o ddogfennau byrrach sy'n canolbwyntio ar: leoliadau addysg; rhieni gyda phlant yn yr ysgol; y rhai y tu allan i'r system addysg ffurfiol (fel addysg gartref); a'r rhai y mae angen gwasanaethau ychwanegol ar eu cyfer.

**Cwestiwn 9 – Ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 yn golygu 'ddim o gwbl' ac mae 5 yn golygu 'defnyddiol iawn') pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn eich barn chi? A oes unrhyw welliannau yr hoffech eu gweld?**

| 1 | ☐ | 2 | ☐ | 3 | ☐ | **4** | **X** | 5 | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

O ystyried yr ystod eang o bynciau a meysydd a gwmpesir, maent yn fwy fel crynodebau, ac felly mae'r manylion yn cael eu cadw mewn mannau a dogfennau eraill a allai ei gwneud yn llai hygyrch i rai pobl. Roedd llawer o wybodaeth am gymorth, ond ymddengys nad oedd digon o wybodaeth ar gefnogaeth a'r heriau ychwanegol y gellid eu hwynebu o ran gofalwyr ifanc a'r rhai y byddai am gael gwybodaeth am gamfanteisio.

Nodwn fod diffyg cyfeiriad at Blismona o ystyried y rôl y mae Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion yn ei chwarae fel rhan o Raglen Ysgolion Heddlu Cymru. Ariennir y Rhaglen ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Phlismona yng Nghymru, ac mae'n bartneriaeth bwysig gydag elfennau allweddol yn canolbwyntio ar y materion a gwmpesir yn y canllawiau. Felly, rydym o'r farn y dylid cyfeirio'n glir at y Rhaglen yn y canllawiau yn enwedig o ran pa mor agos yw'r amcanion cyffredinol y ddau, a'r ffocws ar bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth.

**Cwestiwn 10 – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â'r canlynol:**

i. **esbonio'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu y dylid eu mabwysiadu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr?**

| **Ydynt** | **X** | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Ymddengys bod y rhai sydd wedi'u cynnwys yn seiliedig ar dystiolaeth, ond mae'n bwysig nodi y gallai fwy o ddulliau gweithredu ddatblygu dros amser, yn enwedig mewn ymateb i effaith Covid lle nad oedd presenoldeb yn yr ysgol yn opsiwn.

**ii. nodi'r ffactorau sy'n cyfrannu a all effeithio ar bresenoldeb?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydynt** | **X** | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

**Sylwadau ategol**

Gweler ein hateb blaenorol i gwestiwn pedwar.

**iii. cyfeirio at ragor o wybodaeth ac arferion da?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | **Ddim yn siŵr** | **X** |

**Sylwadau ategol**

Mae'r wybodaeth a'r cyfeirio yn y ddogfen yn ymddangos yn briodol. Fodd bynnag, mae'n gyfyngedig o fewn y categorïau hysbys a gallai gyfyngu ar y cyfle i ychwanegu arfer da newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth neu sydd eisoes ar gael ond nad yw'n hysbys i'r Rhwydwaith hwn na'n partneriaid ar hyn o bryd.

**iv. cofnodi a dadansoddi data ar bresenoldeb?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydynt** | **X** | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

**Sylwadau ategol**

Er bod y risg i blentyn neu unigolyn ifanc ddisgyn i lawr bwlch wrth symud drwy lety yn newid, efallai y bydd angen rhoi mwy o sylw i'r maes hwn gan y gallai'r argyfwng costau byw, yr argyfwng tai a ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill gynyddu ochr yn ochr ag ymddygiad sy'n gysylltiedig â covid, a newidiadau nad ydynt o bosibl yn amlwg eto.

**v. ymgysylltu â theuluoedd a chymorth amlasiantaethol?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydynt** | **X** | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

**Sylwadau ategol**

Mae'r wybodaeth yn glir, y pryder i'n partneriaid yw lle nad yw'r teulu'n gallu ymgysylltu oherwydd straen a phwysau eraill megis digartrefedd neu ddim yn gwybod o ble y daw'r pryd nesaf. Gallai hyn leihau'r gallu i deuluoedd ymgysylltu neu i blant gymryd y gefnogaeth sydd ar gael yn benodol ar eu cyfer.

**vi. rheoli absenoldeb yn ffurfiol?**

| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | **Ddim yn siŵr** | **X** |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Nid ydym yn sicr oherwydd y gall fod ystod eang o resymau ac efallai nad dim ond ym maes addysg y mae'r atebion, ond i ddull mwy cyfannol sy'n cwmpasu mwy na dim ond gwasanaethau addysg o amgylch yr unigolyn ifanc a'r teulu. Pan fydd rhieni'n gweithio gyda dwy neu dair swydd, yna gall rhybudd cosb benodedig arwain at eu gwthio dros y dibyn i dlodi difrifol. Gallai hyn arwain at gosbi plant eraill yn y tŷ ac nid dim ond y plentyn nad yw'n ymgysylltu.

**Cwestiwn 11 – At ddibenion ystadegol, mae absenoldeb cyson wedi ei ddiffinio yng Nghymru fel absenoldeb am dros 20% o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid diwygio'r diffiniad ystadegol o absenoldeb cyson i dros 10% o sesiynau, sef y diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr ar hyn o bryd. Ydych chi'n cytuno ai peidio â'r cynnig hwn a pham?**

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ | **Ddim yn siŵr** | **X** |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Er y gallai hyn ymddangos fel newid da, gan ddarparu cysondeb a chymorth i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag absenoldebau o'r ysgol, gallai effeithio'n negyddol ar y rhai ag anableddau a allai fod â systemau imiwnedd is ac sydd felly'n profi mwy o absenoldebau gartref ac yn yr ysbyty. Gall hefyd gael effaith negyddol ar ofalwyr ifanc, yn enwedig os caiff ei gofnodi ar gofrestr yn syth ar ôl cinio pan fydd gofalwr ifanc ar ei ffordd yn ôl ar ôl bod adref i roi meddyginiaeth, gofal personol neu fwyd i'r unigolyn/unigolion y mae'n gofalu amdanynt.

**Cwestiwn 12 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Nid oes gennym unrhyw farn ar y canllawiau hyn ar hyn o bryd. |

**Cwestiwn 13 – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu gallai'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Nid oes gennym unrhyw farn ar y canllawiau hyn ar hyn o bryd. |

**Cwestiwn 14 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:**

Mae addysg yn bwysig ar gyfer cydlyniant cymunedol ac ar gyfer grymuso plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw addysg ffurfiol bob amser yn brofiad dymunol i bawb ac efallai mai dyna lle mae angen rhoi mwy o ffocws. Lleihau bwlio ar draws yr holl nodweddion a gwahaniaethau a chefnogi'r rhai sydd â chyfrifoldebau ychwanegol.

Y risg y bydd y rheini y tu allan i'r system ysgol (oherwydd absenoldeb neu achos o ddiarddel) yn cael eu hecsbloetio neu eu cam-drin ac yn dargedau haws ar gyfer troseddau trefniadol neu ar gyfer heriau ymddygiad a allai darfu ar ddisgyblion eraill o bosibl yw eu hunig ffordd o fynegi bod rhywbeth o'i le. Os yw'n cymryd saith ymgais ar gyfartaledd i ddioddefwr cam-drin domestig adael (ceisio lloches) ni allwn ddisgwyl i blant fod yn agored yn ei gylch pan fydd y rhiant yn dal i wadu.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐